## Newyddion Diweddaraf Data Cymru – WSLC Hydref 2025

### Gweithgarwch diweddar a phigion

#### 1. *Gwelliant Dan Arweiniad y Sector: Integreiddio CLlLC a Data Cymru*

Hoffem ni rannu rhai datblygiadau pwysig ynghylch ein cyfeiriad ni yn y dyfodol. Yn gynharach eleni, cymeradwyodd Bwrdd Gweithredwyr CLlLC a Bwrdd Data Cymru gynlluniau i'r ddau sefydliad ddod ynghyd. Mae'r integreiddiad hwn wedi'i amserlennu ar gyfer ail hanner 2025–26, gan adlewyrchu uchelgais gyffredin i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i gynghorau lleol.

Ers hynny, rydym wedi gweithio'n agos i lunio cyd-weledigaeth a chynllun tymor canolig sy'n adeiladu ar ein rhaglenni a'n hymrwymiadau presennol. Dros y tair blynedd nesaf, ein nod yw integreiddio'n llawn ar draws ein gwaith data, digidol, gwelliant a pholisi.

Fel rhan o'r trawsnewid hwn, bydd 'brand' Data Cymru yn dod i ben, a bydd ein holl weithgareddau'n cael eu cyflenwi trwy gyfrwng CLlLC. Bydd Bwrdd Gwella Dan Arweiniad y Sector newydd yn goruchwylio'r gwaith hwn. Yn y tymor byr, ni fyddwch yn sylwi ar unrhyw newidiadau mawr. Byddwn yn parhau i gyflenwi popeth rydym wedi ymrwymo iddo ac yn gweithio gyda chi fel rydym ni bob amser wedi gwneud.

Rydym yn arbennig o gyffrous am y cyfleoedd a fydd yn codi o hyn. Bydd data dibynadwy, am y sector cyfan, yn chwarae rôl ganolog mewn siapio polisi doethach, gan alluogi ymyriadau amserol a llywio blaenoriaethau'r dyfodol.

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gydol y broses er mwyn sicrhau bod ein hymagwedd newydd yn adlewyrchu anghenion cynghorau lleol ac yn cydategu gwaith cyrff eraill yn y maes hwn.

Rydym ni'n edrych ymlaen at barhau'r daith hon gyda chi. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Randall.

#### 2. *Arolwg preswylwyr cenedlaethol*

Mae sesiynau rhithwir wedi cael eu cynnal gyda swyddogion a Chynghorwyr i gael eu hadborth am y cwestiynau ychwanegol (modiwl 2). Mae'r cwestiynau Saesneg wedi'u cwblhau, ac mae'r set ddwyieithog lawn wedi bod ar gael i'w defnyddio ers 1 Gorffennaf.

Erbyn hyn mae 17 o gynghorau wedi cynnal neu'n bwriadu cynnal yr arolwg. Mae wyth ar waith ar hyn o bryd neu'n paratoi i lansio, ac mae tri eisoes wedi cwblhau eu harolwg nhw eleni. Mae saith o'r cynghorau hyn heb gynnal yr

arolwg o'r blaen. Mae Sir Gâr a Chaerdydd wedi rhannu data o'u harolygon eu hun at ddibenion meincnodi.

Mae'r dangosfwrdd wedi'i ddiweddaru i wella effeithlonrwydd, a bydd cwestiynau modiwl 2 ar gael o 19 Medi ymlaen. Mae nodwedd awdurdodau cymaradwy a mwy o wybodaeth meincnodi yn cael eu hychwanegu hefyd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyd-amseru rhediad yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol ledled Cymru. Bydd hyn yn cefnogi mwy o gysondeb, yn lleihau dyblygu ymdrech ac adnoddau, ac yn gadael i gynghorau rannu eu dulliau ymgysylltu'n fwy effeithiol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Randall.

### *3. Cyd-ddangosfwrdd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi gweithio gyda Data Cymru ers nifer o flynyddoedd ac yn ddiweddar cydweithredodd Byrddau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gyd-gomisiynu dangosfwrdd cyson. Trwy hyn maent wedi helpu i rannu costau a sicrhau fformat cyffredin ar draws y tair ardal.

Mae'r dangosfwrdd yn cynnig mynediad i set ddata ehangach a manylach, sy'n cefnogi'r Byrddau i ddeall a chyfathrebu blaenoriaethau a chanlyniadau lleol yn fwy effeithiol. Yn ddiweddar cafodd swyddogion eu gwahodd o'r holl gynghorau o fewn olion troed y tri Bwrdd i sesiwn arddangos, lle bu'r adborth yn bositif, gan amlygu pa mor hawdd mae'r dangosfwrdd i'w ddefnyddio a'r mynediad gwell mae'n ei gynnig i ddata perthnasol.

Y gobaith yw cyhoeddi'r dangosfyrddau ar wefan pob Bwrdd yn ystod Medi.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Randall.

### *4. Meincnodi Cymru*

Rydym wedi gwneud sawl diweddariad i'r set ddata perfformiad hunan-asesu, ein hadnodd ar-lein sy'n rhoi mynediad i ystod eang o ddata perfformiad a chyflenwi gwasanaethau. Mae newidiadau diweddar yn cynnwys gwelliannau i ddata gofal cymdeithasol ac ychwanegu data am gartrefi gwag.

Mae rhagor o ddiweddariadau yn yr arfaeth, a bydd data cynllunio a data gweithlu ychwanegol gan gynnwys absenoldeb salwch yn cael eu hychwanegu cyn bo hir.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Ana Harries.

## Allbynnau sy'n cael eu datblygu / ailddatblygiadau

### *1. Diogelwch ar y ffyrdd (disgwylir Rhagfyr 2025)*

Ym Mawrth 2025, cafodd dangosfwrdd diogelwch y ffyrdd ei ddatblygu a'i gyflwyno yng Nghynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru i gefnogi dealltwriaeth well o dueddiadau o ran anafiadau a damweiniau ffordd ledled Cymru. Mae'r dangosfwrdd yn dod â data STATS19 ynghyd mewn fformat clir a hygyrch, gan adael i ddefnyddwyr gynhyrchu cipolygon a chynnal dadansoddiad ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Roedd y croeso cryf a gafodd yn y gynhadledd yn adlewyrchu ei botensial i lywio penderfyniadau a chefnogi ymyriadau pwrpasol diogelwch ar y ffyrdd. Yn dilyn adborth cadarnhaol, byddwn ni yn trefnu bod y dangosfwrdd ar gael ar eu gwefan ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu ei nodweddion ymhellach, gan sicrhau ei fod yn dal i fodloni anghenion defnyddwyr ac ychwanegu gwerth ar draws y sector.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ana Harries.

### *2. Llesiant yng Nghymru (disgwylir Rhagfyr 2025)*

Rydym wrthi'n ailddatblygu dangosfwrdd Llesiant Cymru, a lansiwyd yn wreiddiol yn 2021 i helpu awdurdodau lleol i olrhain eu cynnydd yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol. Wrth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) nodi 10 mlynedd ar waith, bydd yr ailddatblygiad yn cynnwys adnewyddu'r data yn llawn a rhyngwyneb sydd wedi'i ailddylunio i wella profiad ei ddefnyddio a mewnwelediad.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod y dangosfwrdd ar ei wedd newydd yn ychwanegu gwerth, yn gwella effaith, ac yn parhau i gefnogi cynnydd ystyrlon tuag at nodau llesiant Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ana Harries.

## Hyfforddiant a gweminarau

### *1. Arweiniadau hyfforddiant*

Rydym wedi cyhoeddi arweiniadau hyfforddiant ar:

- Cyfleu eich pwynt: Cyflwyniad i gyflwyno data'n effeithiol;
- Deall eich gwybodaeth: Cyflwyniad i ystadegau cryno;
- Clywed oddi wrth ddinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal arolygon;

- Ymgysylltu â dinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal grwpiau ffocws;
- Data 101: Cyflwyniad i ddeall a defnyddio data; a
- Deall a defnyddio data perfformiad.

Maent ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan.

***2. Rhaglen gweminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'***

Rydym yn cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen gweminarau 'hysbysu ac ysbrydoli'. Am ragor o wybodaeth ac i archebu tocynnau, ewch i TicketSource.

Mae recordiadau o'n gweminarau blaenorol ar gael ar ein gwefan.

Rydym bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, gwneud, neu wrthi'n gwneud, rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – yn llwyddiannus neu fel arall. Yn yr un modd, hoffem ni glywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil hoffech chi ddysgu mwy amdanynt yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.

***3. Rhaglen hyfforddiant agored adeiladu capasiti***

Hoffech chi ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau cael mwy o werth ohono? Ydych chi'n meddwl am ehangu'ch sgiliau?

Mae gennym gyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws;
- Data 101; a
- Data perfformiad.

Rydym yn cynnal pob un o'n cyrsiau hyfforddiant ar-lein dwywaith bob chwarter lle gall cydweithwyr o gynghorau lleol gofrestru i fynychu **am ddim**. Gall sefydliadau eraill fynychu am gost o £50 ynghyd â TAW y person, y sesiwn.

Erbyn hyn gallwn ni gynnig sesiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

I ddysgu mwy ac i gadw lle ar un o'n sesiynau agored, ewch i Ticketsource.

Fel arall, am gost fychan, gallwn ddarparu cyrsiau hyfforddiant yn unswydd ar gyfer eich sefydliad chi, ar-lein neu wyneb yn wyneb, ar adeg neu ddyddiad sy'n adas i chi.

Os hoffech chi drafod eich gofynion, cysylltwch â Róisín Roberts.

### Datblygu cyrsiau hyfforddiant

#### *1. Cyrsiau newydd*

Rydym wrthi'n datblygu dau gwrs hyfforddiant newydd, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid gwahanol, sef:

- Gweithio gydag un cyngor lleol i ddatblygu cwrs ar gyfer defnyddwyr terfynol PowerBI gyda'r nod o'u helpu'n well i ddeall y dechnoleg a sut i'w defnyddio'n effeithiol.
- Rydym yn datblygu cwrs hyfforddi Excel cyflwyniadol, a ddeilliodd o weithio gyda sefydliad allanol ac o ganlyniad i adborth gan gydweithwyr yn yr awdurdod lleol.

Disgwyliwn i'r cyrsiau yn y pen draw ddod yn rhan o'n cyfres safonol o gyrsiau.

#### *2. Fideos addysgol*

Bwriadwn gyhoeddi cyfres o fideos addysgol fel rhan o'n rhaglen adeiladu capasiti ehangach. Bydd y fideos yn cynnig cyfarwyddiadau mewn pytiau hwylus ar amrywiol bynciau, fel sut i wneud cyfrifiadau penodol mewn Excel neu gynghorion ac awgrymiadau am PowerBI.

Caiff y fideos eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Ein nod yw cyhoeddi'r ychydig o fideos cyntaf y chwarter hwn.